

COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 9fed o FAI 2016 YN NEUADD LESIANT PONTIETS AM 7.00

Presennol: Geraint Rosser (yn y gadair), Ian Evans, Tyssul Evans, Heddwyn Jones, Alan Lewis, Linda Williams, Geraint Rosser, Margaret Rees, Geoff Hewitt, a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Carrie Rees, Wendy Evans, Richard Thomas, Ellis Jenkins, Meic Bowen.

Materion Personol

Croesawyd pawb i'r Cyfarfod Blynyddol gan y Cadeirydd .

1415 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol diwethaf ar 11/05/15 fel rhai cywir.

1416 CADEIRYDD 2016-2017

Cynigwyd ac etholwyd y Cynghorwr Alan Lewis yn Gadeirydd.

1417 IS-GADEIRYDD 2016-2017

Cynigwyd ac etholwyd y Cynghorwr Ian Evans yn Is-gadeirydd

1418 LWFANS Y CADEIRYDD

Penderfynwyd bod y Cadeirydd i dderbyn Lwfans o £300 tuag at dreuliau'r swydd.

1419 Diolchiadau

Cyfeiriodd y Cadeirydd presennol y Cynghorydd Geraint Rosser ei fod wedi cael blwyddyn brysur a diolchodd i'r Is-gadeirydd a'r Cyngor yn gyffredinol am eu cydweithrediad parod. Diolchodd hefyd i'r Clerc, Glyndwr Prideaux am ei wasanaeth arbennig a thrylwyr yn ystod y flwyddyn.

Diolchwyd iddo ef fel Cadeirydd am ei arweiniad ac am lywio'r Cyfarfodydd mor drefnus yn ystod flwyddyn ei lywyddiaeth.

1420 Ethol Aelodau'r Is-bwyllgorau

Cyllid:

Cadeirydd y Cyng. Alan Lewis, Cyng. Geraint Rosser, Cyng. Richard Thomas, Cyng. Ellis Jenkins, Cyng. Linda Williams, Cyng. Ian Evans, Cyng. Tyssul Evans, Cyng. Heddwyn Jones

Cynllunio a Goleuadau:

Cadeirydd y Cyng. Alan Lewis, Cyng. Ian Evans, Cyng. Ellis Jenkins, Cyng. Heddwyn Jones, Cyng. Geoff Hewitt, Cyng. Geraint Rosser, Cyng. Margaret Rees, Cyng. Aled Williams, Cyng. Meic Bowen.

Iaith:

Cadeirydd y Cyng. Geraint Rosser, Cyng. Heddwyn Jones, Cyng. Linda Williams, Cyng. Carrie Rees, Cyng. Wendy Evans, Cyng. Margaret Rees.

Pwyllgor Cyswllt Cwar Torcoed:

Cyng. Margaret Rees, Cyng. Tyssul Evans, Cyng. Alan Lewis

Pwyllgor y Wefan:

Cyng. Linda Williams, Cyng. Alan Lewis

Pwyllgor y Frigâd Dan (Pontiets)

Cyng. Geoff Hewitt, Cyng. Geraint Rosser, Cyng. Alan Lewis, Cyng. Ian Evans

1421 Trosglwyddwyd y gadair i'r Cadeirydd newydd

Daeth y Cyfarfod Blynyddol i ben am 19.25y.n.

Llofnodwyd..... CADEIRYDD

Dyddiad.....